

Targed 1	Cyfathrebu ar lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb	Rydw i wedi ceisio i ddefnyddio iaith mwy broffesiynol yn fy ngwaith.	Tud 7-8 wrth edrych ar ffynhonellau yn critigol
Targed 2	Ffurfio Gwaith sydd yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol	Wedi ceisio sicrhau bod fy ngwaith yn rhugl	Tud 9 wrth adfyfrio

ECAD6013-C

Y Dysgwr: Pwy ydw I'n addysgu?

Cari Ann Tinnuche
1811204
Nifer o eiriau: 4900

Rhan 1

Cyflwyniad

Fel dywedir NEU Cymru (2021), dylai ein dyletswydd gofal i ddisgyblion fel Athrawon ystyried ffactorau “gan gynnwys oedran, iechyd, a sut, ble a gyda pha adnoddau y mae eu haddysg yn cael ei darparu” – mae pob dysgwr yn unigolyn cwbl wahanol a dyletswydd ni fel Athrawon yw hi i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gyfle i ffynnu. Noda Llywodraeth Cymru (2021) bod rhaid sicrhau bod plant yn “mwynhau dysgu, datblygu sgiliau, gwybodaeth a chydnerthedd emosiynol”. I wneud hyn, rhaid i Athrawon sicrhau bod nhw yn diwallu anghenion pob dysgwr, a phersonoli'r dysgu er budd y dysgwr.

Dywed Siencyn et al. (2008. Tud 139) mae “sicrhau bod plentyn yn gymdeithasol, emosiynol ac yn gorfforol barod i ddysgu o'r pwys mwyaf” ac yn “rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn”. Mi fyddaf yn trafod anghenion disgybl o'r enw Margo. Am resymau diogelwch, dynodwyd y disgybl enw ffug yma i'r disgybl er mwyn sicrhau preifatrwydd. Noda canllaw 40 BERA dylai ymchwilyr “gydnabod hawl sefydliadau a chyfranogwyr unigol i breifatrwydd, a dylent roi eu hawliau i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd iddynt” (BERA, 2018). Felly ni fydd unrhyw fanylion y gellir adnabod y plentyn o yn cael eu cynnwys yn hyn.

Fel gwelir o broffil Margo (atodiad 1 yn rhan 2), mae Margo yn 4 mlwydd oed ac yn ymuno a dosbarth Meithrin yn ysgol A. Ar hyn o bryd, oherwydd ansicrwydd Margo tuag at ysgol, mae hi ond yn mynychu Mae gan Margo syndrom alcohol y ffoetws, sydd yn cael effaith arno ddatblygiad plentyn mewn nifer gwahanol ffurf, er enghraifft gellir achosi anawsterau dysgu fel problemau meddwl, neu broblemau symudiad (NHS, 2020). Dywed The Guardian (2018) bod y syndrom yn un o achosion mwyaf cyffredin anawsterau dysgu ac ymddygiad yn y byd. Yn achos Margo, mae'r salwch wedi cael effaith ar ddatblygiad cymdeithasol hi, a fyddaf yn creu cynllun cymorth ar gyfer hi er mwyn sicrhau bod Margo yn hapus a chyflawn yn ystod ei hamser yn yr ysgol.

Fel amlinellir yn y cynllun cefnogi (atodiad 2 yn rhan 2) mae cwpl o ffyrdd i helpu a chefnogi Margo gyda'i datblygiad cymdeithasol ac yn y dosbarth er mwyn sicrhau bod hi'n mwynhau ei hamser yn y dosbarth. Yn y cynllun cefnogi mae cwpl o weithgareddau a syniadau, er enghraifft amserlen weledol sydd wedi cael ei brofi i fod yn hynod o effeithiol yn helpu rhoi strwythur i'r diwrnod i'r disgyblion (Symbols Inclusion Project, 2021) neu lyfr cof er mwyn helpu Margo ymgartrefi yn yr ysgol. Mae'r syniadau rwyf wedi cynnwys yn cyd-fynd gyda damcaniaeth Bruner a Vygotsky ac yn annog llawer o gyd-weithio a modelu.

Prif gorff

Mae Erthygl 29 o'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud y dylai "addysg plentyn neu berson ifanc helpu ei feddwl, ei gorff a'i ddoniau i fod y gorau y gallant" (UNICEF, 2021). Dylai Margo deimlo'n gyffyrddus ac yn hapus yn yr ysgol er mwyn cyflawni ei llawn botensial, ac er nad yw hi yno eto, ffocws y cynllun cymorth yw gwneud iddi hi gyrraedd cychwyn addas ar gyfer ei haddysg ac i adeiladu arno gyfeillgarwch a pherthnasoedd ag eraill yn y dosbarth gyda chefnogaeth ei hathro, ei thad, ei chyd-ddisgyblion a rhanddeiliaid eraill.

Fel dywedais yn y cyflwyniad, mae Margo yn dioddef o syndrom alcohol y ffoetws. Byddaf yn ei alw yn SAFF yn ystod hyn. Yn ôl British Medical Association (2007. Tud 33 - 56) SAFF yw'r achos mwyaf cyffredin o anabledd dysgu yn y DU (sydd ddim yn genetig). Noda Parkinson a McLean (2013) bod y diffygion o'r salwch yma am oes ac yn dod yn fwy amlwg gydag oedran, ond fod ymyrraeth gynnar yn gallu gwella diffygion, yn enwedig sgiliau cymdeithasol. Dadleua'r llyfr "How Children Learn" (Vosniadou, 2001. Tud 9) bod dysgu yn weithgaredd cymdeithasol, a chredaf fod hyn yn glwyd fawr i Margo a rheswm pam dydy hi ddim yn mwynhau neu yn gyffyrddus yn ysgol. Mae plant a SAFF yn aml yn iau yn ddatblygiadol na'u hoedran cronolegol, ac o ganlyniad gellir camddehongli eu hymddygiad (NHS, 2019). Wrth edrych ar y tabl (atodiad 1 yn yr atodiadau) mae plant a SAFF yn gweld hi'n anodd perfformio rhai sgiliau cymdeithasol yn gyson. Llawer o'r amser mae hyn y tu hwnt i'w rheolaeth.

Yng nghyd-destun Margo, er bod trafferthion gyda hi, mae hi yn ferch hapus a siriol. Ond, mae hi yn gweld hi'n anodd cael ei adael yn ysgol ac yn cynhyrfu. Mae hyn yn para nes tuag amser cinio pryd mae hi'n mynd adref. Nododd ymchwil anghyhoeddedig gan Miriam Bamidele bod cyfraddau uwch o ymlyniad ansicr a di-drefn mewn plant gyda SAFF: darganfuwyd bod plant a SAFF 9 gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu anhwylder ymlyniad na phlant yn y boblogaeth gyffredinol (Prifysgol Salford, 2021). Gellir hyn fod yn rheswm pam mae Margo yn gweld hi'n anodd ac yn angen fwy o gymorth i ymgartrefu yn ysgol: mae hi o bosib yn gweld hi'n anodd ymddiried i'r oedolion sydd o'i hamgylch hi.

Mae plant gyda SAFF yn dibynnu arno gysondeb a threfn arferol mewn bywyd dydd i ddydd. Noda Duke University (2016) bod amgylchedd strwythuredig yn hanfodol i fyfyrwyr gyda SAFF. Mae angen trefn ddibynadwy ar y myfyrwyr, ac mae darparu strwythur yn meddwl nid oes angen iddynt ddefnyddio egni i ddehongli eu hamgylchedd. Mae trosglwyddiadau yn effeithio arno'r drefn yma, ac o ganlyniad, mae pobl gyda SAFF yn gweld hi'n anodd

trosglwyddo. Mewn achos Margo, mae hi yn dechrau dosbarth Meithrin yn ysgol newydd. Mae'r trosglwyddiad yma o gartref i ysgol yn un enfawr i blentyn ifanc: esbonia Cremin ac Arthur (2014, tud 127) bod trosglwyddiadau ar unrhyw adeg yn gymhleth, ac nad yw'n ddigwyddiad unigol ond yn broses parhaol. Cytuna Association of Teachers and Lecturers (2003, tud 44) gyda hyn, gan ddweud nid oes ffordd i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Darganfydda' adroddiad Barrett o'r enw 'Dechrau'r Ysgol' (1986) bod angen cysylltiadau cryf rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau trosglwyddiad mor llym ag sy'n bosib. Fel gwelir o'r cynllun cymorth, mae tad Margo yn chwarae rôl bwysig yn y cynllun er mwyn sicrhau bod Margo yn hapus ac yn setlo yn yr ysgol. Awgryma POPFASD (2021) bod cwpl o wahanol ffurf i sicrhau bod trosglwyddo yn mynd mor llyfn â phosib: un o rain yw annog cyfathrebu cyson rhwng athrawes a'r cartref, gyda budd Margo wrth wraidd pob penderfyniad. Cytuna NHS (2021) gyda hyn; dywedwyd bod "paratoi, cynllunio a chyfathrebu cadarnhaol yn helpu i adeiladu'r sylfaen ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol". Trwy weithio gyda chydweithwyr a rhieni mae'n bosib creu amgylchedd deallusol a fydd yn meithrin datblygiad y disgybl.

Yn ôl Web MD (2021) dylai plentyn 4-5 mlwydd oed dechrau datblygu sgiliau cymdeithasol ac mae hyn yn cynnwys dod yn fwy annibynnol, rhannu teganau a chymryd mewn tro, a hefyd mwynhau chwarae gyda phlant eraill. Mae hyn yn cyd-fynd gyda Tassoni et al., (2016. Tud 15), sydd yn dweud bod plant 4 mlwydd oed yn tueddu mwynhau annibyniaeth ac yn deall bod rhaid rhannu a rhesymu. Er nad yw'r cerrig milltir awgrymedig hyn yn goncridd, ac yn dibynnu ar sefyllfaoedd unigol, maen nhw'n rhoi syniad bras i ni o ble ddylai Margo fod. Fel gwelir o broffil Margo, mae hi'n gweld hi'n anodd creu perthnasau gydag aelodau arall yn y dosbarth, ac yn gweld hi'n anodd rhannu a chwarae gyda phlant eraill yn y dosbarth. Yn ôl y cerrig milltir, mae Margo 'tu ôl' yn ei ddatblygiad cymdeithasol.


Un o'r gweithgareddau sydd yn y cynllun cymorth yw'r syniad o greu llyfryn cof ffotograffig o'r ysgol ar gyfer Margo. Byddai'r llyfr yma yn cynnwys lluniau o wahanol ardaloedd yn yr ysgol, aelodau o staff, a'r ardal allanol. Margo fyddai'n gyfrifol am greu'r llyfr yma gyda chynorthwydd er mwyn sicrhau bod cynnwys y llyfr yn bersonol iddi hi. Awgryma'r gweithgaredd hyn gan ESTYN (2019) yn ei erthygl arno arfer effeithiol. Defnyddiodd yr erthygl hon arfer effeithiol gan ysgol a sut roeddent yn helpu eu myfyrwyr anghenion dysgu ychwanegol i setlo a dod yn gyfarwydd ag ysgol newydd.

Noda NHS (dim dyddiad) bod nifer o fanteision i amserlen weledol. Un o rain yw mai'n helpu i reoli pryder – gall defnyddio amserlenni gweledol helpu pobl ifanc i reoli eu pryderon trwy eu helpu i wybod beth i'w ddisgwyl o'r diwrnod ysgol. Cytuna gwefan 'I CAN' (dim dyddiad)

gan ddweud bod “defnyddio symbolau a llinellau amser gweledol fel rhan o ddull addysgu amlsynhwyrdd yn helpu plant i ymddwyn yn dda, datblygu llythrennedd, cymell ac atgyfnerthu cysyniadau y maen yn eu hadnabod ac arwain at fwy o annibyniaeth”. Felly, mae nifer o fanteision o bosib o’r amserlen weledol, a dyna pam mae hi yn y cynllun cymorth.

Mae’n werth nodi bod cwpl o weithgareddau yn y cynllun yn annog creadigrwydd. Credaf fod creadigrwydd yn hanfodol yn natblygiad cymdeithasol plant – noda Tims (2010, tud.11) bod dysgu creadigol yn cynnwys ymchwilio, darganfod, dyfeisio a chydweithredu sydd gyd yn gallu fod yn fantais fawr i ddatblygiad cymdeithasol. Cytuna Growing Kids Learning Centers (2021) gyda hwn, gan ddweud bod chwarae creadigol a’r celfyddydau yn caniatáu i blant ryngweithio gydag eraill a datblygu sgiliau cymdeithasol. Maen nhw hefyd yn dweud “pan fydd eich plentyn yn chwarae gwisgo i fyny neu yn gwneud celf a chrefft gyda phlant eraill, byddant yn gallu dysgu sut i gyfathrebu ag eraill a chymdeithasu mewn ffordd hwyliog ac unigryw”. Felly, mae’r cynllun cymorth yn cynnwys nifer o gyfleoedd i Margo cymryd rhan mewn gweithgareddau fel hyn fel paentio pwmpen, creu anifail allan o ddail a brigau.

Mae’r gweithgareddau eraill trwy gydol y cynllun cymorth yn annog gwaith tîm a phartneriaeth ac mae hwn yn cefnogi damcaniaeth Jerome Bruner a Lev Vygotsky. Mae’r ddau ddamcaniaethwr yn ffocysu arno ac yn pwysleisio’r pwysigrwydd o amgylchedd plentyn. Roedd Jerome Bruner yn ffocysu yn bennaf arno sut mae gwybodaeth yn cael ei deall a threfnu trwy wahanol ffurf o feddwl (Simply Psychology, 2019). Noda Bruner dri cham o gynrychiolaeth wybyddol (Study.com, 2021), fel gwelir isod:




Ffigwr 1. (First Discoverers, 2021)

Mae'r gweithgareddau yn ystod wythnos un yn cefnogi ail gam y tri cham. Yr ail gam yw lle mae Margo yn ffitio i mewn (yn y grŵp oedran 1-6) ac felly bydd y gweithgareddau'n ei helpu i gyrraedd hyn. Bydd cliwiau gweledol fel yr amserlen a'r llyfr cof yn ei helpu i ddeall y sefyllfa yn feddyliol cyn y ddealltwriaeth gysyniadol yn gam 3. Mae Bruner yn eiriolwr mawr dros blant sy'n dysgu trwy ddysgu annibynnol a hunan ddarganfod.

Rhagdybia theori Vygotsky bod pobl yn dysgu mwy o ryngweithio cymdeithasol, o arsylwi eraill, o'r rhyngweithio a'r cyfathrebu sydd ganddyn nhw gyda'r rhai sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau mwy datblygedig (Zhou, 2020. Tud 83). Datblygodd Vygotsky y cysyniad o'r parth datblygiad procsimol. Fel gwelir o'r diagram isod syniad craidd y cysyniad yw y gall unigolyn mwy gwybodus wella dysgu myfyriwr trwy eu tywys trwy dasg ychydig yn uwch na lefel ei allu (HealthLine, 2021). Mae'r cysyniad yma yn ganolbwynt y gweithgareddau a byddant yn hanfodol wrth ddatblygu sgiliau cymdeithasol Margo: trwy gydol popeth sydd yn y cynllun cymorth mae Margo wedi'i phartneru lan gydag unigolyn mwy gwybodus er mwyn iddi hi fodelu ymddygiad nhw tuag at eraill yn y dosbarth. Credai Vygotsky bod pob person yn cael dau lefel i ddatblygiad sgil, sef:

1. Lefel maen nhw'n gallu cyrraedd yn annibynnol.
2. Lefel maen nhw'n gallu cyrraedd gyda help mentor, athrawes, neu rywun mwy gwybodus.



Ffigwr 2 (Healthline, 2021)

Er bod Bruner a Vygotsky yn dilyn damcaniaeth gwybyddol Piaget, mae'r ddau yn cael dau safbwynt gwahanol amdano addysgu: ond mae'r cynllun cymorth yn cefnogi'r ddau ddamcaniaeth ac yn ei ddefnyddio mewn 2 ffurf wahanol. Mae Bruner yn credu bod dysgwyr yn dysgu yn fwy effeithiol os maen nhw'n caffael y wybodaeth ei hunain a'r athro'n rhoi cefnogaeth ar yr adeg iawn. Ar y llaw arall, roedd Vygotsky yn credu bod problemau'n codi pryd roedd athrawon yn gadael gormod i'r myfyriwr gwneud yn annibynnol (Dastous, 2004. Tud 6).

Er bod modelu yn rhan bwysig o'r cynllun cymorth, mae Kelly et al. (2009) yn canfu bod babanod sydd yn dioddef o SAFF yn dangos gallu amhariad i fodelu ymddygiad arddangoswyd gan yr arbrofwr a dyma un broblem all codi o'r cynllun cymorth. Dyma un peth hi fod yn amheus ohono gan nad ydym yn gwybod sut y gallai Margo addasu i'r cynllun cymorth, ond yn yr adolygiad ar ddiwedd yr hanner tymor cynhelir sgwrs i drafod y dilyniant yn dilyn y 7 wythnos flaenorol.

Mae nodyn yn y cynllun cymorth yn sôn amdano gynnydd Margo: nid oes un ffordd benodol yn unig i fesur cynnydd Margo dros yr hanner tymor. Esbonia Llywodraeth Cymru (2020b) bod cynnydd dysgwyr "ar hyd continwrm dysgu o 3 i 16 oed yn ganolog i Gwricwlwm i Gymru". Noda Llywodraeth Cymru bod dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a chyfradd dilyniant gwahanol i rai sydd heb, a bydd dilyniant yn edrych yn wahanol i bob unigolyn. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ymlaen i ddweud bod cynnydd yn rhan "annatod o ddysgu ac addysgu ac mae'n gofyn am bartneriaethau effeithiol ymhlith pawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y dysgwr".

Bydd Margo yn chwarae rhan allweddol yn y broses o dracio cynnydd. Bydd llais y dysgwr yn rhan bwysig iawn ac mae'r "Department for Children, Schools and Families" (dim dyddiad) yn dadlau bod hyn yn rhan hanfodol na ellir ei hanwybyddu. Mae pum egwyddor cynnydd yn y Cwricwlwm i Gymru, sef:

1. Ehangder a dyfnder gwybodaeth
2. Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y meysydd
3. Mireinio a s soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
4. Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau Newydd
5. Cynyddu effeithiolrwydd.

(Llywodraeth Cymru, 2020b)

Mae'n bwysig bod y 5 egwyddor yma wrth wraidd unrhyw gamau cynnydd o fewn y Cwricwlwm i Gymru a dylai fod wrth wraidd unrhyw benderfyniadau amdano gynnydd. Mae ymgysylltiad rhwng y dysgwr a'r ymarferydd yn hynod o bwysig, ond er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, mae rhaid i gydweithrediad bawb sydd yn rhan o daith dysgwr bod wrth wraidd dilyniant y dysgwr. Mae tadau, fel mamau, yn chwarae rhan hynod o bwysig ym mywydau plant ifanc (Early Years Alliance, 2021) ac mae hi wedi cael eu profi bod plant yn gwneud yn well yn addysgol, seicolegol, ac yn gymdeithasol pan fydd tadau'n cymryd rhan weithredol yn dysgu eu plant. Adrodda Education Endowment Foundation (dim dyddiad) bod ymgysylltiad rhieni yn cael effaith gadarnhaol ar gyfartaledd o 4 mis o gynnydd ychwanegol, ac mae hyn yn profi'n bellach pa mor bwysig yw'r perthynas a'r cydweithrediad rhwng pob rhandeiliaid sydd yn cymryd rhan ym mywyd Margo.

Fydd cynnydd Margo yn cael ei asesu mewn cwpl o arddulliau gwahanol. Un o rain, ac efallai un o'r arddulliau mwyaf pwysig, yw trwy arsylwi. Pwysleisia Hobart a Frankel (1995, tud 10) bod hi'n bwysig i ddiwallu a deal anghenion plant a thrwy gofnodi arsylwadau, mae'n bosibl nodi patrymau ymddygiad a newidiadau. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer y cynllun cymorth oherwydd bydd yn rhoi cyfle i ni sylwi ar yr hyn sy'n gweithio yn y cynllun a beth sydd ddim yn gweithio. Bydd arsylwi yn digwydd o leiaf un waith yr wythnos gan yr Athrawes, a bydd hwn yn rhoi cyfle i bawb sydd yn cymryd rhan yn y cynllun cymorth penderfynu os yw Margo'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn y cynllun.

Diwedd glo

Adroddfa Prifysgol Bryste yn 2018 bod hyd at 17% o blant yn cael symptomau sy'n gyson a syndrom alcohol y ffoetws (Prifysgol Bryste, 2018). Er bod mwy ymchwil yn cael ei wneud ar y syndrom a'i effeithiau ar hyn o bryd, dim ond ychydig iawn sy'n hysbys am y syndrom a sut i gefnogi unigolion sy'n dioddef ohono. Adroddfa FASD Network (dim dyddiad) bod tua 7,000 o fabanod yn cael ei eni gyda'r syndrom pob blwyddyn, sydd yn meddwl bod siawns eithaf teg y byddwn ni yn ystod ein gyrfaoedd yn cael disgybl sydd yn dioddef o SAFF. Mae hi'n bwysig i ni fel addysgwyr nid yn unig dysgu beth yn gwmws yw SAFF, ond hefyd fel ni'n gallu helpu unigolyn sydd yn cael SAFF i gyflawni ei photensial ac i fyw bywyd hapus ac iachus.

Eglura Siencyn et al., (2010, tud 145-146) bod perthynas dda gyda chartref y plentyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod plentyn yn dysgu ac yn cyrraedd ei photensial. Mae Gwaith Gutman a Feinstein (2008) bellach yn cefnogi hwn, gan bwysleisio bod y bartneriaeth weithredol yn rhan werthfawr o fywyd ysgol y plentyn.

Mae Erthygl 12 o'r CCUHP yn dweud bod gan bob plentyn yr hawl i "ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch" (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Mae hyn wrth wraidd y cynllun cefnogi ac yn rhywbeth bydd rhaid cymryd mewn i ystyriaeth trwy gydol y cynllun cymorth. Yn rheolaidd, bydd Margo yn cymryd rhan mewn sgwrs i sicrhau nad yw hi'n teimlo'n ddig, yn anghyfforddus neu yn teimlo fel mae hi'n cael ei gorfodi i gymryd rhan. Mae'n bwysig i ni fel addysgwyr sicrhau bod gennym ystod eang o wybodaeth er mwyn diwallu anghenion unigol ein dysgwyr. Mae un o'r Safonau Statws Athrawon Cymhwysol yn dweud mai'r "athro'n dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad o ddisgwyliadau uchel ac arfer effeithiol wrth ddiwallu anghenion pob dysgwr" (Llywodraeth Cymru, 2019. Tud 14-17)

Trwy gydol hyn rwyf wedi cael cyfle i fyfyrion feirniadol ar y dulliau a ddewiswyd ar gyfer y cynllun cymorth, yn ogystal â dysgu mwy am bwysigrwydd nodweddion fel cyfranogiad rhieni. Er mwyn hyrwyddo fy natblygiad fel ymarferydd myfyriol, credaf mai fy ngham nesaf yw dysgu mwy am strategaethau posibl y gellid fod wedi'u defnyddio ar gyfer Margo.

Ar ôl y cynllun cymorth, credaf taw'r camau nesaf ar gyfer cynnydd yw monitro fel mae hi'n addasu i'r dosbarth erbyn yr hanner tymor. Os nad yw hi yn ddigon cyfforddus yn y dosbarth erbyn hanner tymor wedyn fydd rhaid i'r rhanddeiliaid dod lan a ffurf arall i gefnogi Margo. Y peth pwysig yw bod Margo yn cyrraedd pwynt hapus a chyffyrddus yn yr ysgol. Waeth pa mor hir y mae'n ei gymryd. Nid yw cynnydd yn llinol.

RHAN 2*Proffil Margo*Amdana i

Rydw i yn 4 mlwydd oed a merch hapus a siriol iawn!. Mae gen i un brawd o'r enw Twm* sydd ym Mlwyddyn 5. Nid yw Twm yn dioddef o'r un syndrom a mi. Rydw i yn gweld y broses o ddod yn gyfarwydd â bywyd ysgol yn anodd. Rwy'n mwynhau cwmni eraill yn y dosbarth, ac rwy'n gyffyrddus yn yr ystafell ddosbarth.

Beth sy'n bwysig i mi

- Gwyllo fideos ar yr iPad.
- Fy arth brown o'r enw Arthur.
- Rhyddid wrth chwarae tu allan i chwarae ar y beic, ond y gefnogaeth i sicrhau fy mod i'n ddiogel hefyd.
- Cefnogaeth o'r unigolion rwyf yn ymddiried ynddo.

Sut i'm cefnogi ymhellach

- Amynedd i'm deall – enwedig pryd os cymeraf ychydig o amser i roi brawddeg at ei gilydd.
- Amser tawel os ydw i'n angen – ond cwtsh os ydw i angen un ac rydw i'n drist.
- Cefnogaeth ychwanegol ieithyddol, llawer o ailadrodd.

*Meysydd i ddatblygu***Datblygiad cymdeithasol**

- Rwy'n ei chael hi'n anodd cyfrannu at y trafodaethau ystafell ddosbarth oherwydd fy mhroblemau iaith.
- Rwyf am wneud ffrindiau gyda fy nghyd-ddisgyblion ond nid wyf yn gwybod sut i gyfathrebu a nhw.
- Os mae rhaid i fi gyfrannu tuag at waith grŵp neu sgwrs dosbarth rwy'n cynhyrfu.

Datblygiad emosiynol

- Mae hi'n cynhyrfu pryd mae ei rhieni yn dod a hi i ysgol – mae hyn yn tueddu para nes amser ginio.
- Mae hi'n cael hi'n anodd ymddiried yn aelodau arall o staff- dim ond yn ymddiried yn yr Athrawes Dosbarth a'r Cynorthwyydd.
- Tueddu colli ei dymer oherwydd y rhwystrau ieithyddol.

Datblygiad gwybyddol

- Nid wyf yn torri ar draws yn y dosbarth ac rwyf yn ffocysu'n dda bryd mae'r athrawes yn siarad.
- Rwyf yn deall ychydig o beth sy'n cael ei ddweud yn ystod gwersi.
- Rwy'n dda mewn mathemateg ac yn gallu cydnabod gwahanol rifau.

Datblygiad ieithyddol

- Rwyf yn gallu deall cyfarwyddiadau syml er enghraifft 'eistedd' 'sefyll' ac ati.
- Rwy'n cael trafferth cyfathrebu ac yn teimlo'n drist pan rwyf ddim yn gallu dweud beth rwyf eisiau.
- Rwy'n gweld hi'n anodd i deall beth mae'r Athrawes yn dweud ac yn dibynnu ar pethau gweledol.

Cynllun hanner tymor – thema cynhaeaf

	Gweithgaredd	Cysylltiad a'r Cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2019)	Pwy bydd yn cefnogi?	Sylwadau a dyddiad adolygu
Wythnos 1	Ffocws: Wythnos yn ffocysu arno helpu Margo dod yn gyfarwydd ag ysgol. Gweithgareddau ymgartrefu cyn ffocysu ar sgiliau cymdeithasol. Gweithgareddau: - Amserlen weledol er mwyn i Margo gwybod a dilyn strwythur y dydd. Fydd hyn yn helpu hi i ddod yn gyfarwydd â bywyd ysgol ychydig yn well. Rhywun i ddarllen a rhedeg trwy'r amserlen gyda hi pob dydd, cartref ac yn ysgol. - Margo i greu llyfr cof o weithgareddau mae hi'n gwneud trwy gydol yr wythnos. Bydd y llyfr yn mynd adref gyda hi ar ddiwedd yr wythnos er mwyn helpu atgoffa hi o'r ysgol a'r gweithgareddau hwylus mae hi'n gwneud yn ysgol, gan gynnwys chwarae gyda ffrindiau.	"Unigolion iachus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas". "Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol". Cam cynnydd 1 - Rwy'n gallu sylwi sut rwy'n teimlo, a chyfathrebu hyn. "Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles" Cam cynnydd 1 - Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau yn fy nghydberthnasau.	- Cynorthwydd - Athrawes - Rhiant - Cyfoedion - Therapydd iaith a lleferydd	- Dad i rhedeg trwy yr amserlen gweledol gyda Margo cyn iddi dod i ysgol er mwyn paratoi hi yn y bore. - Margo i ddewis beth mae hi eisiau cynnwys – er enghraifft os mae hi eisiau cynnwys llun o rhyw tegan mae hi'n hoffi.

Wythnos 2	Ffocws: Erbyn wythnos 2 dylai Margo wedi dod yn mwy cyfarwydd gyda diwrnod ysgol, a felly fydd y ffocws yn newid i datblygiad cymdeithasol Margo. Gweithgareddau - Dechrau annog Margo i chwarae gyda'i chyfoedion. Dechrau gyda gweithgareddau syml heb ormod o orlwytho. Gweithgareddau fel dosbarth – er enghraifft amser cylch. Cwestiynau i annog Margo i ddod yn gyfarwydd i siarad o flaen a dod yn gyffyrddus o flaen ei ffrindiau. Gem i ddod yn gyfarwydd gydag aelodau yn y dosbarth. Byddwn ni yn gwneud y gweithgaredd yma ar ddiwedd y dydd gyda bel.	“Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol”. “Unigolion iachus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas”. Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Mae gen i'r gallu i wneud ffrindiau a cheisio datrys anghytundeb, gan ofyn am gymorth pan fydd angen. (Cam cynnydd 1)	- Cynorthwydd - Athrawes - Rhiant - Cyfoedion - Therapydd iaith a lleferydd	- Un plentyn gyda'r bel yn dweud enw plentyn arall ac yn rhoio'r bel iddo. Bydd hwn yn helpu sgiliau motor nhw a sgiliau cymdeithas u nhw. - Gweithgaredd arall - Amser cylch ond gyda chwestiynau hwyliog a syml i'w hannog i fagu hyder.
Wythnos 3	Ar ôl yr wythnos cyn, arsylwi pwy mae Margo yn ymddangos yn gyffyrddus gydag a pwy mae hi'n hoffi bod gyda. Er enghraifft, os mae hi'n hoffi chwarae gyda Lili* (*enw ffug) – paru hi lan gyda Lili am yr wythnos er mwyn annog datblygiad yn y cyfeillgarwch. Gweithgareddau i adeiladu arno hwn, er enghraifft: Gweithio fel partneriaid i greu pwmpen allan o 'mache paper'	Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a phan rwyf i'n garedig wrth eraill. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw.	- Cynorthwydd - Athrawes - Rhiant - Cyfoedion - Therapydd iaith a lleferydd	Os nad yw Margo yn tueddu chwarae gydag un unigolyn, dewis unigolyn sydd yn mwy hyderus na Margo

	○ Didoli'r dail yn ôl lliwiau, didoli i mewn i botiau rhif gwahanol, a didoli nhw yn drefn maint	Mae gen i'r gallu i wneud ffrindiau a cheisio datrys anghytundeb, gan ofyn am gymorth pan fydd angen. (Cam cynnydd 1) "Unigolion iachus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas". Rwyf wedi cael profiad o grwpio a rhannu gyda gwrthrychau a meintiau, ac rwy'n gallu grwpio neu rannu meintiau bychain i grwpiau hafal eu maint. (Cam cynnydd 1)		
Wythnos 4	Wythnos cyfeillgarwch • Llawer o gwahanol gweithgareddau amdano cyfeillgarwch dros y dosbarth. Tasgiau fel: ○ Beth sydd yn gwneud ffrind da? (gweld adnoddau ar diwedd) ○ Creu blodyn cyfeillgarwch Dosbarth yn cael ei rhannu mewn i grwpiau ffrindiau. Pawb yn cael partner gwahanol i chwarae gyda phob dydd sydd yn wahanol i bwy maen nhw fel arfer yn chwarae gyda. Gwahanol weithgareddau i wneud fel grŵp – er enghraifft chwarae mewn ardal chwarae rôl, pypeddi, gemau tîm fel snap.	Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a phan rwyf i'n garedig wrth eraill. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Mae gen i'r gallu i wneud ffrindiau a cheisio datrys anghytundeb, gan ofyn am gymorth pan fydd angen. (Cam cynnydd 1) "Unigolion iachus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel	- Cyfoedion - Therapydd iaith a lleferydd	

	Fydd hyn yn annog cydweithredu.	aelodau gwerthfawr o gymdeithas".		
Wythnos 5 + 6	Gweithgareddau i barhau wythnos yma i adeiladu ar y perthnasoedd mae Margo wedi creu yn ystod wythnos cyfeillgarwch. Cymysgedd o ddysgu grŵp a dysgu annibynnol yn yr ystafell ddosbarth fel ei bod yn dechrau teimlo yn fwy cyffyrddus. Bydd Margo hefyd yn dechrau mynychu diwrnodau llawn: 2 waith yn wythnos un a 3 gwaith yn wythnos dau. Gweithgareddau i gynnwys: - o Gwaith grŵp – adeiladu tŷ i ddraenog allan o frics neu lego tu allan – gweithio fel grŵp gan gofio fod angen twll i ddrws, ffenestri, ac ati. - o Adeiladu siâp anifail allan o ddail. Rhaid i'r plant gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ddail, concyrs, brigau ac ati. - o Gwaith dosbarth – dysgu caneuon newydd fel dosbarth amdano'r cynhaeaf (thema'r tymor).	Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a phan rwyf i'n garedig wrth eraill. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Mae gen i'r gallu i wneud ffrindiau a cheisio datrys anghytundeb, gan ofyn am gymorth pan fydd angen. (Cam cynnydd 1) "Unigolion iachus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas". Rwyf wedi archwilio, cymharu, a defnyddio iaith gyffredinol siapiau trwy chwarae ymchwiliol. (Cam cynnydd 1)	- Cyfoedion - Therapydd iaith a lleferydd	o Wrth i'r wythnos mynd ymlaen, dechrau annog mwy a mwy amser annibynnol
Wythnos 7	Dylai pythefnos o ddysgu annibynnol ymhlith cyfoedion Margo wneud iddi hi deimlo'n llawer mwy cyfforddus gyda'i chyfoedion, felly o wythnos 7 gellir rhoi ychydig mwy o annibyniaeth iddi. Yr wythnos hon bydd Margo hefyd yn ceisio mynychu wythnos lawn	Rwy'n ymwybodol o adegau pan mae eraill yn garedig wrthyf a phan rwyf i'n garedig wrth eraill. (Cam cynnydd 1) Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp. (Cam cynnydd 1)	- Cyfoedion - Therapydd iaith a lleferydd	o Os nad yw Margo yn digon cyfforddus i gweithio gydag aelodau arall yn y dosbarth eto, ail adrodd wythnos 5 + 6 er mwyn

	yn yr ysgol gyda diwrnodau llawn, a bydd hyn yn ei pharatoi ar gyfer bod yn llawn amser yn yr ysgol ar ôl hanner tymor. Bydd y gweithgareddau wythnos yma yn cynnwys gweithgareddau dysgu arferol, ond fydd mwy o ddisgwyliad i Margo i fod yn fwy parod i chwarae a dysgu gydag aelodau eraill yn y dosbarth.	Rwy'n gallu adnabod a dilyn rheolau a normau gwahanol grwpiau a sefyllfaoedd rwy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Mae gen i'r gallu i wneud ffrindiau a cheisio datrys anghytundeb, gan ofyn am gymorth pan fydd angen. (Cam cynnydd 1) "Unigolion iachus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas".		adeiladu lan i wythnos 7 eto. Nid oes rhuthr a bydd popeth yn cael ei wneud pan fydd yn addas a gellir rhoi amser ychwanegol os oes angen.
--	--	---	--	---

Nodiadau:

Fydd Margo yn cwrdd a'r therapydd iaith a lleferydd unwaith yr wythnos. Fydd hwn yn helpu datblygiad iaith hi. Fydd cwpl o gweithgareddau yn ystod yr wythnos hefyd yn adeiladu arno sesiynau mae Margo wedi cael gyda'r lleferydd.

Cyfeirnod

ATL. (2004) *Right from the Start. Early Years Education: Policy & Practice*. London: ATL. Tud 44.

Barrett, G. (1986) *Starting School: An Evaluation of the Experience*. London: AMMA.

British Educational Research Association [BERA] (2018) 'Ethical Guidelines for Educational Research' BERA, Llundain. Ar Gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Darllenwyd 24 Hydref 2021)

British Medical Association (2007). *Alcohol and pregnancy Preventing and managing fetal alcohol spectrum disorders*. [ebook] London: British Medical Association, tud.33-56. Ar Gael yn: <<https://www.bma.org.uk/media/2082/fetal-alcohol-spectrum-disorders-report-feb2016.pdf>> [darllenwyd 27 October 2021].

Cremin, T., Arthur, J. (2014) *Learning to Teach in the Primary School*. 3rd ed. Routledge: LONDON

Dastous, M. (2004) *Bruner VS Vygotsky: An analysis of divergent theories*. [ar-lein] ar gael yn: https://www.dastous.us/pro_portfolio/graduate/Bruner%20and%20Vygotsky.pdf. (darllenwyd 28 Hydref 2021) tud. 4

Department for Children, Schools and Families (dim dyddiad) *UNDERSTANDING PROGRESS* [AR-LEIN] ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/692/7/0802c5f19c85b9ab44936d7d4afc4fe7_Redacted.pdf (darllenwyd 27 Hydref 2021)

Duke University. (2016) *The FASD student and the classroom*. [ar-lein] ar gael yn: <https://sites.duke.edu/fasd/chapter-4-the-fasd-student-and-the-classroom/provide-a-structured-environment/> (darllenwyd 28 Hydref 2021)

Early Years Alliance (2021) *Involving parents in their children's learning*. [AR-LEIN] ar gael yn: <https://www.eyalliance.org.uk/involving-parents-their-children's-learning> 2021 (darllenwyd 28 Hydref 2021)

Education Endowment Fund (dim dyddiad) *Parental Engagement* [ar-lein] ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/teaching-learning-toolkit/parental-engagement> (darllenwyd 26 Hydref 2021)

ESTYN (2019) *Cynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol trwy newid*. [ar-lein] ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynorthwyo-disgyblion-ag-anghenion-ychwanegol-trwy-newid?_ga=2.5467892.652760885.1635339310-140463454.1635339310 (darllenwyd 27 Hydref 2021)

FASD NETWORK (dim dyddiad) *What is FASD?* [ar-lein] ar gael yn: <http://www.fasdnetwork.org/what-is-fasd.html> (darllenwyd 27 Hydref 2021)

First Discoverers (2021) *Bruner's Three Modes of Representation*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.firstdiscoverers.co.uk/what-makes-early-years-children-so-digitally-fluent/figure-2-bruners-three-modes-of-representation/> (darllenwyd 26 Hydref 2021) Ffigwr 1.

Growing Kids (2021) *Why Creativity is important for children* [ar-lein] ar gael yn: <https://www.growingkids.com/child-care-plymouth/why-creativity-is-important-for-children/> (darllenwyd 26 Hydref 2021)

Gutman, L. And Feinstein, L. (2008) Children's well-being in primary school: research report no. 25. Llundain: Centre for Research on the Wider Benefits of Learning, Institute of Education, University of London.

Healthline (2021) *Zone of Proximal Development*. [Ar-lein] ar gael yn: <https://www.healthline.com/health/zone-of-proximal-development> (darllenwyd 28 Hydref 2021) Ffigwr 2.

Hobart, C. and Frankel, J., (1994.) *A Practical Guide to Child Observation*. 1st ed. Cheltenham: Stanley Thorners, tud.10.

I CAN (dim dyddiad) *Visual Timetables*. [ar-lein] ar gael yn: <https://ican.org.uk/media/1800/visual-timelines-factsheet-practitioners.pdf> (darllenwyd 26 Hydref 2021)

Kelly, S. Day, N., Streissguth, A. (2009) Effects of Prenatal alcohol exposure on social behaviour in humans and other species. *Neurotoxicology and Teratology*, 22(2), 143–149

Llywodraeth Cymru (2019). *Professional Standards for Teaching and Leadership*. [ebook] Llywodraeth Cymru, tud.14-17. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/19bc948b-8a3f-41e0-944a-7bf2cadf7d18/professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf> [darllenwyd 26 October 2021]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Cefnogi cynnydd dysgwyr* [ar-lein] ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/> (darllenwyd 28 Hydref 2021)

Llywodraeth Cymru (2021) *'Mae Addysg yn newid'* [ar-lein] ar gael yn: https://llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid?_ga=2.85607901.552591470.1635174627-1724816095.1635174627 (darllenwyd 26 Hydref 2021)

Llywodraeth Cymru (2021) Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol/> (darllenwyd 29 Hydref 2021)

NEU Cymru (2021) *'Legal responsibilities'* [ar-lein] ar gael yn: <https://neu.org.uk/advice/legal-responsibilities> (darllenwyd 25 Hydref 2021)

NHS (2019) *Understanding Fetal Alcohol Syndrome Disorder*. [ar-lein] ar gael yn: https://www.nhs.uk/media/8391/fasd_whateducatorsneedtoknow.pdf (Darllenwyd 28 Hydref 2021) tud32. (TABL)

NHS (2020) '*Fetal Alcohol Syndrome*' [ar-lein] ar gael yn: <https://www.nhs.uk/conditions/foetal-alcohol-syndrome/> (Darllenwyd 26 Hydref 2021)

NHS (dim dyddiad) *Visual Timetable*. [ar-lein] ar gael yn: <https://bcuhb.nhs.wales/services/a-z-of-services/services/neurodevelopmental/documents/visual-timetable/> (darllenwyd 27 Hydref 2021)

Parkinson, S., & McLean, S. (2013). Social Development in Children with Foetal Alcohol Spectrum Disorders. *Children Australia*, 38(3), 124-128. doi:10.1017/cha.2013.16

Prifysgol Salford (2021) '*FASD, attachment and trauma*.' [Pwerbwyt] ar gael yn: <https://www.salford.ac.uk/sites/default/files/2020-09/UOS-foetalconf%20-%20Alan%20Price.pdf> (DARLLENWYD 28 Hydref 2021)

Siencyn, S. (2008) *Y Cyfnod Sylfaen*. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg y Drindod. Tud 145-146

Siencyn, S., (2008). *Y plentyn bach*. 1st ed. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg y Drindod, tud.139.

Simply Psychology (2019) *Jerome Bruner* [ar-lein] ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/bruner.html> (darllenwyd 27 Hydref 2021)

Study.com (2021) *Jerome Bruner's Theory of Development*. [ar-lein] ar gael yn: <https://study.com/academy/lesson/jerome-bruners-theory-of-development-discovery-learning-representation.html> (darllenwyd 27 Hydref 2021)

Symbols Inclusion Project. (2021) *Visual Timetables*. [ar-lein] ar gael yn: <https://symbolsinclusionproject.org/resources/classroom/timetables/index.htm> (darllenwyd 27 Hydref 2021)

Tassoni, P., Baker, B., Burnham, L. And Hocker, K. (2016) *BTEC Nationals Children's play, learning and development*. Harlow. Pearson Education.

The Guardian (2018) *Study suggests rate of foetal alcohol syndrome disorder higher than thought*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.theguardian.com/society/2018/nov/30/study-suggests-rate-of-foetal-alcohol-syndrome-disorder-higher-than-thought> (darllenwyd 23 Hydref 2021)

Tims, C. (2010) *Born Creative* London: DEMOS. Tud 11.

UNICEF (2021) *The Right to Education*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/the-rrsa/the-right-to-education/> (Darllenwyd 28 Hydref 2021)

Vosniadou, S. (2001) *How Children Learn*. Geneva: International Academy of Education.

WEB MD (2021) *4-5 Year old Milestones*. [ar-lein] ar gael yn: <https://www.webmd.com/parenting/4-to-5-year-old-milestones#2-4> (darllenwyd 28 Hydref 2021)

Zhou, Jiayu. (2020). A Critical Discussion of Vygotsky and Bruner's Theory and Their Contribution to Understanding of the Way Students Learn. *Review of Educational Theory*. 3. 82. 10.30564/ret.v3i4.2444. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/346706486_A_Critical_Discussion_of_Vygotsky_and_Bruner%27s_Theory_and_Their_Contribution_to_Understanding_of_the_Way_Students_Learn Tud. 83

Atodiadau

(NHS, 2019. Tud 35-36)

Social skill	Requires the ability to	What you might see	Support suggestions
Asking for help or asking for permission	– Generalise – Interpret cause and effect relationships – Predict outcomes	– Grabbing items away from others – Interrupting – Negative behaviour	– Check in with the child frequently to avoid behaviour challenges. – A visual cue that the pupil requires assistance
Listening	– Process auditory information – Filter sensory information – Store and retrieve information	– Lack of focus – Poor eye contact – Fidgeting – Distracting others	– Using listening tools – Reduction of environmental distractions
Following directions	– Remember what is said – Translate auditory or visual information into appropriate action	– Lack of follow-through – Non-compliance – Defiance	– Break tasks into small steps. – Repeat – Visual cues
Reading social cues	– Generalise – Interpret body language – Process visual information	– Acting silly – Inappropriate responses – Laughing at the wrong – Time	– Assist with interpretation of non-verbal communication. – Concrete representations for emotions. – Social scripting
Manners	– Generalise – Interpret cause and effect relationships – Remember	– Rude behaviour – Defiance – Inappropriate responses	– Guided practice – Teach and re-teach – Prompt – Praise good use of manners – Social stories

Social skill	Requires the ability to	What you might see	Support suggestions
Waiting patiently	– Understand and internalise the concept of time – Attend for extended periods of time	– Impulsivity – Disruptive behaviour	– Reduce waiting times – Use of a visual timer
Sharing/taking turns	– Understand the concept of turn taking – Not be impulsive	– Disruptive play – Arguments	– Guided practice – Visual cues – Demonstration – Supervision – Social stories
Apologising	– Understand abstract concepts. – Understand and process the issue – Understand and process cause and effect reasoning	– Defiance – Insincerity – Refusing to apologize	– Explain the incident concretely – Social scripting – Demonstration – Guided practice – Social stories
Problem-solving and resolving conflict	– Hold opposing views and weigh options – Reasonably predict what may happen – Understand and process abstract thought – Be empathic – Understand and process cause and effect	– Conflicts with peers and adults – Inappropriate responses to situations – Frustration	– Guided intervention to assist in working through problem-solving – Supervision to prevent conflict